# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Mai 2023

Amser: 09.30 – 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 – 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(9.30)

### 2.1 Diogelu'r casgliadau cenedlaethol

(Tudalennau 1 – 2)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip: Diogelu'r casgliadau cenedlaethol – 27 Ebrill 2023

### 2.2 Effaith costau cynyddol

(Tudalennau 3 – 4)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cyllid ychwanegol ar gyfer pyllau nofio – 28 Ebrill 2023

### 2.3 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru

(Tudalen 5)

Dogfennau atodol:

- Ymweliadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru - Ebrill 2023

### 2.4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(Tudalennau 6 - 7)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE - 3 Mai 2023

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 a 5

(09.30)

## 4 Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru: Trafod yr adroddiad drafft ar ganfyddiadau cychwynnol y Pwyllgor

(09.30 - 09.50) (Tudalennau 8 - 36)

Dogfennau atodol:

- Adroddiad drafft ar ganfyddiadau cychwynnol y Pwyllgor ar yr honiadau ynghylch Undeb Rygbi Cymru (Saesneg yn unig)

## 5 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: trafod y materion allweddol

(09.50 - 10.30) (Tudalennau 37 - 46)

Dogfennau atodol:

- Briff ymchwil a phapur ar y materion allweddol: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

## 6 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru: craffu ar waith y Prif Weinidog

(10.30 - 11.15) (Tudalennau 47 - 88)

- Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog Cymru
- Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Paula Walsh, Dirprwy Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol

Dogfennau atodol:

- Briff ymchwil: Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru: Adroddiad Blynyddol ar y Rhwydaith Tramor - 2022-23

## Egwyl

(11.15 - 11.20)

## 7 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: sesiwn dystiolaeth gyda'r Prif Weinidog

(11.20 - 12.15) (Tudalennau 89 - 96)

- Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog Cymru
- Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Paula Walsh, Dirprwy Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol

Dogfennau atodol:

- Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.15)

9 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: trafod y dystiolaeth

(12.15 - 12.25)

10 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru: trafod y dystiolaeth

(12.25 - 12.30)

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant

27 Ebrill 2023

Annwyl Delyth

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mawrth 2023, ynglŷn â diogelu'r casgliadau cenedlaethol yn Amgueddfa Cymru. Codwyd y mater hwn wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. Felly, mae llawer o'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr ymateb hwn wedi cael ei rannu gyda chi eisioes.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, yn enwedig gwasanaethau iechyd, yn y Gyllideb ddiweddaraf. Nid yw'n bosib ariannu popeth y byddem yn dymuno ei wneud ac mae penderfyniadau anodd wedi gorfod cael eu gwneud. Er hyn, o fewn setliad Cyllideb heriol iawn gan Lywodraeth y DU, rydym wedi gwarchod cyllidebau Cyrff Hyd Braich o fewn MEG yr Economi cymaint â phosibl.

Mae cynnal a chadw a datblygu ystâd Amgueddfa Cymru, yn enwedig ei hadeiladau hanesyddol, yn flaenoriaeth o ran buddsoddiad cyfalaf. Mae swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr yn yr Amgueddfa i drafod y materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu Cymorth Grant blynyddol i Amgueddfa Cymru, yn ogystal â chyllid wedi'i glustnodi ac ar gyfer prosiectau penodol. Mae'r Amgueddfa hefyd yn cael rhagor o arian drwy gynhyrchu incwm, gan gynnwys gan ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion, nawdd ac ati. Fel rhan o'i Gymorth Grant ar gyfer 2023/24, yn ogystal â thua £27m mewn Refeniw (gros), rydym yn darparu oddeutu £4.7m i Amgueddfa Cymru yn benodol tuag at Gyfalaf Cynnal a Chadw, yn ogystal â dyraniad arall i'w gytuno ar gyfer prosiectau penodol. Nid ydym yn nodi sut y dylid defnyddio'r cyllid hwn, mater i Amgueddfa Cymru yw blaenoriaethu'r gwaith cynnal a chadw ar draws ei ystâd.

Ble bynnag y bo'n bosibl rydym yn darparu cyllid ychwanegol i helpu ein ALBs diwylliannol. Nid yw hyn yn hawdd yn ystod argyfwng costau byw, ac yn enwedig yn sgil y setliad ariannol heriol rydym wedi'i dderbyn gan Lywodraeth y DU. Serch hynny, yn 2022/23, fe wnaethom lwyddo i sicrhau tua £474,000 o gyfalaf ychwanegol i Amgueddfa Cymru, yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ogystal â refeniw o £2.652m, a rhoddwyd £1.3m o hyn i helpu gyda chost gynyddol cyfleustodau yn sgil chwyddiant. Rwyf wedi ymrwymo £1.25m dros dair blynedd (2022/23-2024/25) i gefnogi mentrau datgarboneiddio yn Amgueddfa Cymru. Hefyd dros y tair blynedd hyn, mae £529,000 wedi'i ddarparu tuag at weithgareddau y mae Amgueddfa Cymru'n eu cyflawni i gefnogi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru (ArWAP).

Rwyf hefyd yn ymwybodol o gynlluniau Amgueddfa Cymru ar gyfer ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis. Yn amodol ar gyflwyno achos busnes derbyniol, yn ogystal â'r dyraniadau a amlinellir uchod, rwy'n gobeithio gallu buddsoddi rhywfaint o gyllid yng ngham cyntaf y prosiect hwn.

Nodaf fod y llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor gan Brif Swyddog Gweithredu Dros Dro Amgueddfa Cymru yn cadarnhau bod yr Amgueddfa o'r farn bod ei setliad yn rhesymol dros y ddwy flynedd nesaf, gan nodi hefyd yr ansicrwydd a’r her sy'n gysylltiedig â'r rhagolygon tymor hwy. Wrth gwrs, nid wyf yn gallu gwneud unrhyw ymrwymiadau ariannol y tu hwnt i'r cyfnod adolygu gwariant presennol hwn, ond hoffwn roi sicrwydd i'r pwyllgor fy mod yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i gefnogi Amgueddfa Cymru a'r Cyrff Hyd Braich eraill o fewn fy mhortffolio, o dan amgylchiadau economaidd heriol iawn. Mae'r rhan helaeth o'm cyllideb a ddyrannwyd yn mynd yn uniongyrchol i'r sefydliadau hyn.

Rydych hefyd yn cyfeirio at y Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn eich llythyr. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Llyfrgell a rydym yn darparu cefnogaeth ychwanegol ble bo modd. Ar gyfer 2023/24, fel rhan o'i Gyllid Cymorth Grant, rydym yn darparu oddeutu £1.6 miliwn i'r Llyfrgell yn benodol tuag at gynnal a chadw cyfalaf. Rhoddwyd £500,000 ychwanegol hefyd yn 2022/23, er mwyn talu am system dân newydd i sicrhau diogelwch casgliadau.

Fel yn achos Amgueddfa Cymru, ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf rydym wedi sicrhau bod cyllid ychwanegol am amser cyfyngedig ac wedi’i glustnodi ar gael i'r Llyfrgell, i gefnogi costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â thâl a chyfleustodau. Rwyf wedi ymrwymo £1.5m o gyfalaf pellach i ddatblygu storfeydd casgliadau newydd, i helpu i ofalu am y casgliad cenedlaethol sydd gan y Llyfrgell a £1.61m dros dair blynedd tuag at ddigideiddio a datgarboneiddio. Bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llyfrgell Genedlaethol drwy gydol y cyfnod hwn.

Rwy'n falch ein bod wedi gallu sicrhau cyllid ychwanegol i'n Cyrff Hyd Braich yn ystod argyfwng costau byw anodd pan fo cyllidebau'n cael eu hymestyn a'u hail-flaenoriaethu. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau economaidd presennol rydym yn eu hwynebu. Er yr hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor, os bydd cyllid pellach ar gael byddwn yn parhau i gefnogi ein Cyrff Hyd Braich, fel sefydliadau diwylliannol hanfodol yng Nghymru, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Pwyllgor awgrymu meysydd lle y gallem leihau gwariant er mwyn hwyluso hyn.

Yn gywir

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE/132/2023

Delyth Jewell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru/ Welsh Parliament
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

28 Ebrill 2023

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Ebrill mewn perthynas â'r cyllid canlyniadol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael o ganlyniad i'r arian ychwanegol gwerth £63m ar gyfer pyllau nofio yn Lloegr a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Gwanwyn Llywodraeth y DU ar 15 Mawrth. Rwyf hefyd yn ymateb ar ran Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon.

Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cael swm canlyniadol o £3.54m yn ystod 2023-24 o ganlyniad i'r mesur hwn, sy'n cynnwys refeniw gwerth £1.153m a chyfalaf gwerth £2.307m. Ni ragwelir y bydd unrhyw symiau canlyniadol ar gyfer 2024-25 ar gyfer y mesur hwn. Nid ydym wedi cael y cyllid gan Drysorlys EF eto, ond rydym yn disgwyl y bydd yn cyrraedd fel rhan o broses Prif Amcangyfrifon 2023-24 sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Mae Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon yn ymwybodol iawn o'r pwysau y mae'r argyfyngau ynni a chostau byw presennol yn eu rhoi ar y sector chwaraeon a hamdden, ac mae'n pryderu yn eu cylch i'r un graddau. Llywodraeth y DU sy'n rheoli'r prif ysgogiadau polisi ar gyfer ymateb i'r pwysau hyn o hyd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi galw arni i ddefnyddio'r ysgogiadau hyn er mwyn darparu rhagor o gymorth i byllau nofio. Er bod penderfyniad Llywodraeth y DU i estyn y Cynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni newydd i'w groesawu, mae'n siomedig iawn ei bod yn parhau i eithrio canolfannau hamdden a phyllau nofio rhag cael lefel y cymorth sydd ei hangen arnynt.

Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ddarparu unrhyw gymorth posibl i'r sector chwaraeon a hamdden. Roedd ein cyllideb flynyddol, a gafodd ei chymeradwyo gan y Senedd ar 7 Mawrth, yn darparu cyllid cyfalaf gwerth £16m i Chwaraeon Cymru dros y ddwy flynedd nesaf, a fydd yn helpu'r sector i uwchraddio cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys pyllau nofio, gyda mesurau arbed ynni.

Hoffwn dynnu sylw hefyd at y ffaith bod cyllid ar gyfer pyllau nofio a chanolfannau hamdden yn cael ei roi i awdurdodau lleol drwy'r setliad llywodraeth leol. Er gwaethaf y sefyllfa ariannol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

heriol, rydym wedi cytuno i fuddsoddi swm ychwanegol sylweddol yn y sector Llywodraeth Leol ar gyfer 2023-24 a fydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar eu cymunedau.

Roedd y cyllid sylweddol a roddwyd i awdurdodau lleol fel rhan o Gyllideb 23-24 yn adlewyrchu hyn. Yn ystod 2023-24, bydd awdurdodau lleol yn cael swm o £5.5 biliwn gan Lywodraeth Cymru mewn cyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 7.9% neu £403 miliwn ar sail arian tebyg at ei debyg o gymharu â'r flwyddyn bresennol. Ni fydd unrhyw awdurdod yn cael cynnydd sy'n llai na 6.5%.

Nid ydym wedi dyrannu'r swm bach o gyllid a gafwyd drwy Ddatganiad y Gwanwyn eto, am na chafodd y swm ei gyhoeddi tan ar ôl dyddiad cyhoeddi ein Cyllideb. Un o egwyddorion pwysig datganoli yw na chaiff cyllid canlyniadol ei glustnodi at ddibenion tebyg mewn llywodraethau datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i asesu ac i ystyried lle bydd yr effaith fwyaf wrth wneud penderfyniadau am gyllido yn unol ag amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru, gan gadw'r gwahanol bwysau a nodwyd mewn cof, gan gynnwys cynnal trafodaethau gweithredol ar dâl a lliniaru'r argyfwng costau byw parhaus.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

## INWARD VISITS – APRIL 2023

**25 April** **Visit by the French Ambassador to the UK**
Bi-lateral with First Minister on the Ambassador's first visit to Wales since her appointment. The meeting discussed the Wales in France year and how both countries can work together to maximise existing links and celebrate new connections.

## OUTWARD VISITS – APRIL 2023

**25 April** **Minister for Economy Visit to Brussels**
The Minister for Economy visited Brussels to address the Regional Development Committee in the European Parliament. The Minister also met with the Chair of REGI Committee, the UK Ambassador to the EU and Jan Olbrycht MEP.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

3 Mai 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, gallaf adrodd fy mod wedi mynychu cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 20 Mawrth, ar ran Gweinidog yr Economi. Nid oeddwn yn gallu rhoi gwybod ymlaen llaw am y cyfarfod gan y cafodd ei drefnu ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU.

Cynhaliwyd y cyfarfod wrth baratoi ar gyfer cyfarfodydd dilynol rhwng y DU a'r UE gan Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a'r Cyngor Partneriaeth o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a gynhaliwyd ar 24 Mawrth. Mae'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol wedi'i nodi mewn Datganiad Ysgrifenedig Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE (3 Mai 2023) | LLYW.CYMRU

Byddwn yn rhoi diweddariad ysgrifenedig am y trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau a fydd yn debygol o ymddangos ar yr agenda, maes o law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Gweinidog yr Economi, ac at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Adroddiad Blynyddol ar y Rhwydaith Tramor

2022-23

# Cynnwys

1. Trosolwg

    1.1 Ymweliadau Tramor gan Weinidogion ac Ymweliadau â Chymru

    1.2 Diplomyddiaeth Chwaraeon

    1.3 Partneriaethau Strategol

    1.4 Dydd Gŵyl Dewi

    1.5 Lleoliadau swyddfeydd

2. Rhwydwaith Byd-eang

    2.1 Ewrop

    2.2 Gogledd America

    2.3 Y Dwyrain Canol ac Asia

Atodiad A: Astudiaethau Achos

a) Cwpan Pêl-droed Dynion FIFA, Qatar

b) Cymru yng Nghanada 2022

c) Perthynas ag Ewrop

# Trosolwg

Dyma'r ail adroddiad blynyddol ar waith rhwydwaith tramor Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad ar gyfer 2021-22 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, ac mae'n nodi sut y gwnaeth gweithgarwch rhyngwladol Llywodraeth Cymru ailddechrau yn dilyn pandemig Covid-19. Amlinellodd sut yr oedd Llywodraeth Cymru'n cyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth Ryngwladol hefyd.

Mae hon yn foment gyffrous i Gymru ar y llwyfan rhyngwladol. Mae dulliau polisi arloesol a chyflawniadau mewn chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant wedi codi ein proffil a'n hymwybyddiaeth o bwy ydym ni a'r hyn rydym yn sefyll drosto. Mae hyn wedi golygu galw am fwy o ymgysylltu gan bartneriaid rhyngwladol, yng Nghymru a thramor.

Mae'r cyfnod a gaiff ei gwmpasu gan adroddiad eleni wedi tystio i gyfres o ddigwyddiadau byd-eang dinistriol, yn enwedig y rhyfel yn Wcráin, llifogydd ym Mhacistan a'r daeargryn yn Türkiye a Syria. Er mai Llywodraeth y DU sydd wedi arwain ar ymateb y DU i'r digwyddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cymorth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio drwy'r cynllun Cartrefi i Wcráin a gweithio gyda'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau yng Nghymru.

Rydym wedi darparu rhaglen ryngwladol sylweddol dros y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys ymweliadau Gweinidogol i godi proffil Cymru dramor a theithiau masnach sy'n rhan bwysig o adferiad economaidd Cymru yn dilyn y pandemig. Bu ffocws cryf ar ddiplomyddiaeth chwaraeon eleni hefyd, gyda Chymru'n cael ei chynrychioli yng Ngemau'r Gymanwlad ym Mirmingham, Cwpan Rygbi Merched y Byd yn Seland Newydd, Cwpan Hoci Dynion y Byd yn India ac, wrth gwrs, Cwpan Pêl-droed Dynion FIFA y Byd yn Qatar.

Mae eleni wedi gweld pwyslais ar hyrwyddo gwerthoedd Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, yn unol ag un o brif uchelgeisiau ein Strategaeth Ryngwladol – sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae amrywiaeth ein cysylltiadau byd-eang yn golygu nad yw pob un o'r gwledydd y mae gennym ni berthynas â nhw yn rhannu'r un gwerthoedd na'r un agwedd at hawliau dynol â Chymru. Drwy ein gwaith rhyngwladol, rydym yn ceisio ymgysylltu'n adeiladol â phartneriaid ac egluro agwedd Cymru at hawliau dynol, hawliau LHDTC+, rhyddid gwleidyddol a chrefyddol, addysg gynhwysol a gwaith teg. Mae ein hagwedd at ymgysylltu rhyngwladol yn helpu i bortreadu'r neges bod Cymru'n Genedl Noddfa a chenedl â gwerthoedd.



## Ymweliadau Tramor gan Weinidogion ac Ymweliadau â Chymru

Mae Gweinidogion wedi ymgymryd â phob math o ymweliadau tramor eleni. Ymwelodd y Prif Weinidog ag Oslo i ymuno ag Urdd Gobaith Cymru wrth iddo nodi canmlwyddiant ei neges heddwch ac ewyllys da ac ymgymryd â rhaglen eang o ddigwyddiadau diplomyddol a digwyddiadau oedd yn canolbwyntio ar yr economi. Ym mis Mai, arweiniodd Gweinidog yr Economi daith fasnach i Qatar ac ymwelodd â phencadlys Airbus yn Toulouse ym mis Hydref hefyd. Cynhaliwyd ail Fforwm Gweinidogol Iwerddon-Cymru yn Nulyn a Chorc ym mis Hydref, gyda'r Prif Weinidog, Gweinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig yn bresennol. Ystyriodd y Fforwm hwn y cynnydd yn erbyn Datganiad a Rennir a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru, ac roedd ganddo ffocws penodol ar gysylltiadau dwyochrog; cydweithrediad masnach a datblygu economaidd; a datblygiadau a chyfleoedd ynni adnewyddadwy.

Hefyd ym mis Hydref, teithiodd y Dirprwy Weinidog Chwaraeon i Seland Newydd ar gyfer Cwpan Rygbi Merched y Byd i gefnogi Tîm Rygbi Merched Cymru a chodi proffil Cymru, a theithiodd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg i Frwsel i siarad yn Senedd Ewrop am y rhaglen Taith.



Ym mis Tachwedd, cefnogodd y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi Gymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd yn Qatar - y tro cyntaf i Gymru fod ar y llwyfan rhyngwladol hwnnw ers 64 mlynedd – i hyrwyddo Cymru a'n gwerthoedd. Ym mis Rhagfyr, teithiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i Montréal ar gyfer COP15, gan gynnwys y 7fed Uwchgynhadledd ar gyfer Llywodraethau Is-genedlaethol, i helpu i bwyso ar wladwriaethau lefel y Cenhedloedd Unedig i weithredu i wrthdroi colli bioamrywiaeth. Siaradodd y Gweinidog yn ystod sesiynau llawn, cymerodd ran mewn sgyrsiau a gweithdai'n ymwneud â'r Glymblaid Uchelgais Uchel 30x30 ar gyfer Natur a Phobl, a chynhaliodd gyfarfodydd dwyochrog gyda chenhedloedd eraill, gan gynnwys Cenedl y Wampís, Llywodraeth Catalwnia, Llywodraeth Québec a Llywodraeth yr Alban. O gwmpas Dydd Gŵyl Dewi, ymwelodd y Prif Weinidog â Brwsel a lansio Cymru yn

Ffrainc 2023 ym Mharis, ymwelodd y Gweinidog Addysg ag Iwerddon ac ymwelodd y Gweinidog Iechyd â Chopenhagen.

Yn ddiweddarach ym mis Mawrth, ymwelodd y Prif Weinidog â Gwlad y Basg i archwilio'r posibilrwydd o ddyfnhau ein cydweithrediad ymhellach ac ymwelodd Gweinidog yr Economi ag arfordir gorllewinol UDA i ddatblygu cysylltiadau economaidd a hyrwyddo diwydiannau technoleg a chreadigol Cymru.



Mae Gweinidogion wedi croesawu mwy na 30 o gynrychiolwyr rhyngwladol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r Prif Weinidog wedi cynnal rhaglen o ddigwyddiadau i gyfarfod â Llysgenhadon ac Uwch Gomisiynwyr yn Llundain. Mae Swyddfa Llundain yn gwneud cyfraniad allweddol o ran cynnal cysylltiadau â'r byd ehangach. Mae'r swyddfa'n cefnogi ein cysylltiadau â'r corfflu diplomyddol, gan gynnwys gwledydd a rhanbarthau lle mae gennym berthynas â blaenoriaeth. Mae'n arwain ar ein gwaith ymgysylltu â chwmnïau tramor sydd wedi'u lleoli yn Llundain ac sy'n awyddus i ehangu i Gymru, yn ogystal â bwrw ymlaen â dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn ystod Wythnos Cymru yn Llundain. Mae'r swyddfa wedi cynnal amryw o ddigwyddiadau hefyd sydd wedi canolbwyntio ar yr economi neu sydd â'r nod o rannu polisi arloesol.

## Diplomyddiaeth Chwaraeon

Mae Cymru'n cyrraedd twrnameintiau chwaraeon rhyngwladol o bwys yn rheolaidd erbyn hyn, sy'n gyfle i godi ein proffil a hyrwyddo ein gwerthoedd. Ym mis Awst, nododd Gemau'r Gymanwlad XXII ym Mirmingham lansiad rhaglen o 18 mis o ddiplomyddiaeth chwaraeon sy'n parhau eleni gyda Chwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc.

Dechreuodd ein rhaglen gyda digwyddiad rhyngwladol llwyddiannus yng Ngemau'r Gymanwlad, gyda phanel ysbrydoledig o athletwyr Cymru ddoe a heddiw'n siarad am rymuso menywod mewn chwaraeon. Cafwyd cynulleidfa ryngwladol drawiadol o ffigyrau llywodraeth a chwaraeon, gan gynnwys Dirprwy Brif Weinidogion Seland Newydd a Québec. Hefyd ym mis Awst, defnyddiodd tîm Canada gêm tîm Rygbi Merched Cymru yng Nghanada i lansio'r podlediad *SoftPowerCymru* – cyfres sy'n archwilio pŵer chwaraeon i feithrin cysylltiadau rhwng gwledydd. Yna, arweiniodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon raglen o ddigwyddiadau yn Seland Newydd ym mis Hydref ar gyfer Cwpan Rygbi Merched y Byd, yn ymwneud â diwylliant, chwaraeon, hyrwyddo ieithoedd brodorol a chysylltiadau academaidd.

Roedd y ffaith bod Tîm Pêl-droed Dynion Cymru wedi cyrraedd Cwpan Pêl-droed Dynion FIFA yn Qatar, am y tro cyntaf ers 64 mlynedd, yn gyfle gwych i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan byd-eang. Hyrwyddwyd cysylltiadau economaidd a diwylliannol a dangos bod Cymru'n genedl â gwerthoedd. Cynhaliwyd digwyddiadau ledled y byd, gyda ffocws penodol ar UDA a Qatar a gemau Cymru yn erbyn UDA a Lloegr. Cefnogwyd hyn gan ymgyrch farchnata sylweddol a sylw yn y cyfryngau. Mae astudiaeth achos ar Gwpan y Byd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn.

Ym mis Ionawr, cyrhaeddodd Tîm Hoci Dynion Cymru Gwpan y Byd am y tro cyntaf. Cynhaliwyd hwn yn India, partner pwysig i Gymru, a rhoddodd gyfle i gefnogi Tîm Hoci Dynion Cymru a chodi proffil Cymru yn India gyda nifer o ddigwyddiadau yn nhalaith Odisha, gan ganolbwyntio ar gyfnewid ar gyfer addysg a chwaraeon.

## Partneriaethau Strategol

Gwnaethom barhau i ariannu pedair partneriaeth strategol eleni gydag Urdd Gobaith Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a’r Academi Heddwch.

Cynhaliwyd dau weithdy gyda Phartneriaid Strategol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â thrafodaethau misol rheolaidd i sicrhau bod gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Strategaeth Ryngwladol. Uchafbwynt cyfunol y flwyddyn oedd ymgysylltiad yr holl bartneriaid ag agwedd Tîm Cymru at Gwpan Pêl-droed y Byd FIFA yn Qatar, gan gefnogi gweithgarwch i godi proffil Cymru a hyrwyddo ein gwerthoedd. Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Urdd oedd yn gyfrifol am gefnogi gweithgarwch diwylliannol. Gwnaethon nhw, a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a’r Academi Heddwch, gymryd rhan mewn gweithdai yn y cyfnod cyn y digwyddiad hefyd ar werthoedd a sut rydym yn eu hyrwyddo.

Mae gwaith ehangach wedi digwydd yn ystod y flwyddyn gyda mentrau megis Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydweithio ar ymgysylltu yng Nghanada fel rhan o'n blwyddyn Cymru yng Nghanada. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda chymunedau brodorol fel rhan o Ddegawd Ieithoedd Brodorol UNESCO.

Nid yw ein gwaith ymgysylltu wedi'i gyfyngu i'r partneriaid hyn. Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd ag eraill megis Amgueddfa Cymru, y Cyngor Prydeinig, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Coleg yr Iwerydd, Hoci Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac eraill.

## Dydd Gŵyl Dewi

Roedd Dydd Gŵyl Dewi 2023 yn cynnig cyfle pwysig ar ddiwedd y flwyddyn i ail-ymweld ac adeiladu ar waith blaenorol. Cefnogwyd gweithgarwch yn Llundain ac ar draws y byd i adeiladu ar etifeddiaeth ein hymgysylltiad yng Nghwpan y Byd. Yn ogystal â theithiau tramor gan Weinidogion Cymru, cynhaliwyd digwyddiadau i nodi Dydd Gŵyl Dewi yn UDA, Canada, Tsieina, Japan, India, y Dwyrain Canol ac Ewrop, dan arweiniad ein rhwydwaith tramor.

Yn Llundain, cefnogwyd Wythnos Cymru yn Llundain drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau yn arddangos diwydiannau - megis Fintech a Biotech - a chysylltiadau rhyngwladol megis UDA a Ffrainc. Darparwyd ymgyrch farchnata ryngwladol a oedd yn dathlu Cymru gyda ffocws ar ein gwerthoedd ac a oedd yn ail-dargedu cynulleidfaoedd a gyflwynwyd i Gymru drwy ymgyrchoedd blaenorol megis Cwpan Pêl-droed y Byd a Chwpan Hoci y Byd.

## Lleoliadau swyddfeydd




| Asia | Ewrop | Gogledd America | Y Dwyrain Canol |
|---|---|---|---|
| Beijing | Brwsel | Atlanta | Doha |
| Chongqing | Berlin | Chicago | Dubai |
| Shanghai | Düsseldorf | Efrog Newydd | |
| Bangalore | Dulyn | San Francisco | |
| Mumbai | Paris | Washington DC | |
| New Delhi | Llundain | Montreal | |
| Tokyo | | | |

# Rhwydwaith Byd-eang

Mae gan ein rhwydwaith swyddfeydd tramor dri rhanbarth: Ewrop, Gogledd America a'r Dwyrain Canol ac Asia. Mae gan bob rhanbarth ffocws sydd wedi'i deilwra i'w gryfderau, a buddiannau Cymru, fel yr amlinellir yn eu cylchoedd gwaith rhyngwladol. Mae'r adran hon yn nodi uchafbwyntiau gweithgarwch a gynhaliwyd ym mhob rhanbarth yn ystod 2022-23.

## Ewrop

Roedd ein swyddfeydd yn Ewrop yn parhau i weithio gyda phartneriaid ledled Ewrop yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Maent wedi bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid Ewropeaidd i ddangos bod Cymru'n dal i fod yn rhan weithredol o Ewrop.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau'r UE ac yn gwneud cyfraniad blaenllaw at rwydweithiau rhanbarthol Ewropeaidd, gyda'r ymgysylltu hwn yn cael ei gryfhau drwy benodi Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop. Mae uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Cyfarfu'r Prif Weinidog ag uwch gynrychiolwyr o Senedd Ewrop a chyflwyno araith a gafodd dderbyniad gwresog yn y Ganolfan Polisïau Ewropeaidd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Siaradodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg am Taith yn Senedd Ewrop, a chyfarfu â chynrychiolwyr aelod-wladwriaethau'r UE a chynrychiolwyr rhanbarthol ar y Gymraeg, a thegwch mewn addysg.

- Gyda rhanbarthau'r Iwerydd yng Nghynhadledd y Rhanbarthau Morol ac Ymylol (CPMR), arwyddodd Cymru Adduned ar gyfer Cefnfor Iwerydd glân.

- Cynhaliodd Tŷ Cymru Brwsel Gynulliad Cyffredinol y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD), a oedd yn cynnwys slot siarad gan Lywodraeth Cymru ar bolisi'r Gymraeg.

- Cafodd Cymru ei phenodi unwaith eto i gadeirio Bwrdd Menter Vanguard - rhwydwaith arloesi dylanwadol ac uchel ei barch - yn 2023.

Gwnaethon barhau i hyrwyddo diwylliant Cymru i gynulleidfa o'r UE, gan gynnwys cyfranogiad y bardd o Gymru, Grug Muse, yng ngŵyl farddoniaeth ryngwladol Transpoésie, a pherfformiad gan y gantores o Gymru, Eve Goodman, mewn digwyddiad Cwpan y Byd. Rhoddodd dathliadau'r Jiwbilî Platinwm sylw i fwyd a diod o Gymru mewn dau ddigwyddiad ym Mrwsel. Cynhaliwyd digwyddiad Jiwbilî ym Mharis hefyd ar gyfer dros 2,500 o westeion a oedd yn cynnwys busnesau, rhanddeiliaid gwleidyddol, UNESCO, OECD a phartneriaid Cymreig o Lydaw.

Mae Gweinidogion a swyddogion wedi parhau i gydweithio drwy'r flwyddyn er mwyn darparu Datganiad a Rennir a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru. Dathlwyd cysylltiadau diwylliannol yng ngwyliau Lleisiau Eraill Dingle ac Aberteifi, a chynhaliwyd y Ddeialog Dewi Pádraig gyntaf mewn partneriaeth â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Phrifysgol Dinas Dulyn. Bu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymweld ag Iwerddon hefyd er mwyn cyfnewid dysgu ar nodau datblygu cynaliadwy.

Arddangosodd dirprwyaeth o Ddiwydiannau Creadigol Cymru yn ARVR INNOVATE - digwyddiad technoleg mwyaf blaenllaw Iwerddon - ac ymwelodd taith fasnach amlsector ym mis Mawrth, gan gyd-daro â'r ymweliad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a Dydd Gŵyl Dewi. Cyflwynodd Gweinidog yr Economi y brif araith yn Symposiwm Môr Iwerddon ar y manteision y gall gweithredu ar y cyd eu cynnig i weithgarwch economaidd ar draws Môr Iwerddon. Mae tîm Bwyd Cymru’n gweithio gyda'r Food Hub yng Nghorc ar glwstwr bwyd.

Cynhaliwyd ail Fforwm Gweinidogol Iwerddon-Cymru ym mis Hydref, gyda'r Prif Weinidog, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a Gweinidog yr Economi yn ymweld â Dulyn a Chorc ar gyfer cyfres o gyfarfodydd dwyochrog gyda Gweinidogion Llywodraeth Iwerddon yn canolbwyntio ar gydweithrediad agosach, cyfleoedd ynni adnewyddadwy ac opsiynau ariannu dwyochrog posibl yn y dyfodol.



Roedd gan weithgarwch yn yr Almaen ffocws cryf ar dalaith Baden-Württemberg gydol y flwyddyn cyn arwyddo'r Datganiad a Rennir sydd ar ddod. Ymwelodd Gweinidog-Lywydd Baden-Württemberg â Chymru, fel y gwnaeth Llysgennad yr Almaen i'r DU - ddwywaith. Roedd ei ymweliad cyntaf yr un pryd â Sioe Deithiol Gyrfaoedd Llysgenhadaeth yr Almaen - digwyddiad a oedd yn tynnu sylw at gyfleoedd gyrfa a oedd yn agored i ddysgwyr o bob oed drwy'r iaith Almaeneg - a oedd yn cael ei gynnal yng Nghymru am y tro cyntaf. Daeth taith fasnach o Baden-Württemberg i Gymru hefyd.

Canolbwyntiodd y rhaglen o ddigwyddiadau tramor yn yr Almaen ar gefnogi cwmnïau o Gymru ym Medica, Innotrans, Wind Energy Hamburg a'r Start-Up Summit yn Stuttgart. Yn dilyn proses gynnig fyd-eang, roedd Cymru'n llwyddiannus yn ei chais i gynnal y Circular Economy Hotspot yn 2024.

Ffrainc yw'r gyrchfan nesaf i'n blynyddoedd thema 'Cymru yn...', felly mae gwaith wedi mynd rhagddo ar raglen o weithgareddau. Bydd Cymru yn Ffrainc 2023 yn gyfle i ddathlu'r cysylltiadau sydd wedi bod rhwng Cymru a Ffrainc dros y canrifoedd ac ailddatgan eu perthnasedd, gan adfywio partneriaethau sy'n bodoli eisoes a phlannu'r hadau ar gyfer cydweithrediadau newydd ar draws yr economi, diwylliant, chwaraeon, arloesi a mwy. Mae'r flwyddyn yn cadarnhau Cymru fel cenedl Ewropeaidd sy'n edrych tuag allan, gydag economi amrywiol a blaengar, sy’n adnabyddus am ei hymrwymiad i fyd tecach a mwy cynaliadwy. Lansiodd y Prif Weinidog Cymru yn Ffrainc ar 17 Mawrth ym Mharis, gan gyfarfod ag amryw o fuddsoddwyr Ffrengig sydd â phresenoldeb yng Nghymru ac arwain dirprwyaeth Gymreig i UNESCO, ymhlith gweithgareddau eraill. Mae'r rhaglen yn cynnwys defnyddio Cwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc fel llwyfan i godi proffil Cymru a bydd yn adeiladu ar waith parhaus gyda Llydaw i gyflwyno cydweithrediad dwyochrog cryfach yn erbyn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys cefnogi Cyngor Celfyddydau Cymru yn y Lorient Interceltique Festival.

Mae'r ffocws ar gyfer gwaith masnach a buddsoddi Ffrainc yn parhau i fod ar gydweithio yn y diwydiant technoleg, yn enwedig seiberddiogelwch a lled-ddargludyddion cyfansawdd, cefnogi Partneriaeth Strategol Abertawe/Grenoble a chynrychioli'r sector seiber yng Nghymru yn y *Forum International de la Cybersécurité* (FIC), sioe fasnach seiberddiogelwch fwyaf blaenllaw Ffrainc. Teithiodd cwmnïau o Gymru i Baris ar gyfer ffair fasnach JEC World Composites, yr International Aeronautical Congress a sioe bwyd a diod SIAL. Ymwelodd Gweinidog yr Economi â Thoulouse ym mis Hydref ar gyfer ymweliad ar thema awyrofod, a oedd yn cynnwys ymweliad ag Airbus a chyfarfod â dirprwyaeth Cymru a oedd yn mynychu ADS - cymdeithas fasnach y DU ar gyfer digwyddiad rhwydweithio a seminar blynyddol y sectorau Awyrofod.

Cawsom ddigwyddiadau ynni adnewyddadwy yn Norwy a Sweden hefyd, gan gefnogi dirprwyaeth o un ar ddeg o gwmnïau o Gymru a noddi stondin yn Ocean Energy Europe. Ym mis Mawrth, gwnaeth Marsial Silesia, Gwlad Pwyl, ymweld â Chymru er mwyn archwilio meysydd ar gyfer cydweithrediad posibl a bu’r Prif Weinidog yn ymweld â Gwlad y Basg i atgyfnerthu'r berthynas honno ac archwilio meysydd cydweithredu newydd.

## Gogledd America

Yn UDA, darparodd Cwpan y Byd ganolbwynt ar gyfer y digwyddiadau gyda'r nod o godi proffil Cymru. Cynhaliodd pob swyddfa yn rhwydwaith UDA ei digwyddiadau ei hun i gyd-fynd â gêm Cymru yn erbyn UDA. Yn yr wythnosau cyn Cwpan y Byd, cynhaliodd ein swyddfa yn Efrog Newydd gyfres o ddigwyddiadau i godi proffil Cymru gyda digwyddiad “Welcome to Wrexham” ar y cyd â Disney/FX a chefnogi S4C i gynnal gala 'Cymru yn y Byd'.



Nid oedd diplomyddiaeth chwaraeon wedi'i chyfyngu i bêl-droed. Buom yn gweithio gyda chapten rygbi Cymru, Elinor Snowsill, ar gyfer sesiwn sgiliau am ddim i ferched ifanc yn Virginia a gyda thîm Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru i gael y gwerth mwyaf o WWE Clash at the Castle, gan gynnwys digwyddiad rhwydweithio busnes sy'n cael ei gynnal mewn digwyddiad WWE yn Nashville.

Cefnogwyd dau ymweliad gan yr Urdd. Ym mis Ebrill, ymwelodd côr yr Urdd â Birmingham, Montgomery, Selma ac Atlanta. Cynhaliwyd perfformiadau yn Birmingham ac Atlanta, gan gynnwys perfformiad ar y cyd â Chôr Gospel Prifysgol Alabama. Nod yr ymweliad oedd cryfhau'r berthynas agos rhwng Birmingham a Chymru, a chafodd ei ffilmio gan Avanti Media a'i darlledu ar S4C. Ym mis Medi, ymwelodd yr Urdd â Philadelphia ar gyfer Gŵyl Gymreig Gogledd America (NAFOW) a gwnaethom gymryd rhan mewn seremoni groesawu yno gyda Maer Philadelphia, gyda sylw cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau lleol. Roedd gan yr Urdd raglen lawn o ddigwyddiadau, gan gynnwys cyfarfodydd gyda mudiadau ieuenctid lleol. Defnyddiwyd NAFOW fel llwyfan i gynnal ymgyrch stryd ar draws dinas Philadelphia i hyrwyddo Cymru hefyd.

Eleni, datblygwyd nifer o bartneriaethau addysgol hefyd, yn ogystal â pharhau i ddatblygu ein rhwydwaith cyn-fyfyrwyr yn llwyddiannus. Rydym wedi cefnogi ymweliadau gan Brifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth ac wedi parhau i weithio gyda Cymru Fyd-eang i gefnogi ei hymdrechion i hyrwyddo Cymru fel lleoliad astudio heb ei ail. Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom helpu i lansio rhaglen ysgol haf newydd rhwng Prifysgol Florida a Chymru.

Defnyddiwyd dathliadau'r Jiwbilî Platinwm ledled UDA fel platfformau i gyfleu negeseuon Cymreig allweddol ac i arddangos bwyd a diod Cymru i westeion. Wedi i'r gwaharddiad ar gig oen o'r DU gael ei ddiddymu'n llwyddiannus, Chicago oedd y lle cyntaf i weini cig oen o'r DU ac Iwerddon - cig oen Cymreig - yn UDA ers dros 20 mlynedd.

Gwnaeth nifer o ddigwyddiadau hyrwyddo allforion a Chymru fel lleoliad buddsoddi. Ar gyfer mewnfuddsoddiad, roedd y rhain yn cynnwys Semicon West, RSA, Photonics West, cynhadledd Lendit FinTech a Money2020. Cefnogwyd presenoldeb Cymreig mewn cynadleddau allforio mawr hefyd, gan gynnwys MRO Americas, arddangosfa ryngwladol Efrog Newydd ar gyfer bwyd a diod a Chynhadledd Datblygwyr Gemau. Gwnaeth swyddfa Atlanta gefnogi Taith Fasnach i Ogledd Carolina a De Carolina yn y cyfnod cyn Cwpan y Byd, gyda brecwast busnes gyda Rob Page, rheolwr Cymru, ac roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Mae nifer o erthyglau wedi bod yn y cyfryngau am economi Cymru. Cyhoeddodd Foreign Policy Magazine erthygl am drawsnewidiad economi Cymru, gyda ffocws cryf ar fasnach UDA-Cymru. Cynhaliwyd ymgyrch yn y Wall Street Journal ar ddiwrnod gêm UDA yn erbyn Cymru yng Nghwpan y Byd a oedd yn canolbwyntio ar fasnach UDA-Cymru a chlwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd Cymru. Yn dilyn llwyddiant yr ymgyrch hon, lansiodd y Wall Street Journal ymgyrch arall ym mis Mawrth.

Ym mis Mawrth, ymwelodd Gweinidog yr Economi â San Francisco a Los Angeles i ddatblygu cysylltiadau economaidd a hyrwyddo diwydiannau technoleg a chreadigol Cymru. Arweiniodd daith fasnach amlsector a chefnogodd ddirprwyaeth Cymru a oedd yn arddangos yn y Gynhadledd Datblygwyr Gemau flynyddol, yn ogystal â chynnal rhaglen ehangach o ymgysylltu â busnesau a ffigyrau gwleidyddol.






Canada oedd ffocws yr ail o'n blynyddoedd thema "Cymru yn..." gyda gweithgarwch dwyochrog yng Nghymru dan arweiniad Uchel Gomisiwn Canada drwy ei ymgyrch *Canada Goes Cymru*. Mae astudiaeth achos yn edrych ar y flwyddyn yn fwy manwl.

Parhaodd Cais am Gynigion Cymru-Québec, gyda thrydedd rownd wedi'i lansio ym mis Gorffennaf. Mewn cytundeb â Llywodraeth Québec, gwnaethom ganolbwyntio ar y celfyddydau a diwylliant, gwyddoniaeth ac arloesi, ac adferiad gwyrdd. Cymeradwywyd deuddeg prosiect i gyd, a gwnaeth y llwyddiant ein galluogi ni i gael ymrwymiad gan Lywodraeth Québec i gynnal pedwerydd cais yn 2023.

Gwnaethom gefnogi Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yng ngŵyl gerddoriaeth BreakOut West a chynnal sesiwn ar ieithoedd brodorol yn y diwydiant cerddoriaeth, yn ogystal â hyrwyddo rhaglen Gwrando ar gyfer Degawd Ieithoedd Brodorol UNESCO, a oedd yn cyd-fynd â 'Truth and Reconciliation Day' Canada. Cyflwynodd FOCUS Wales yn Wrecsam ddigwyddiad i artistiaid o Ganada lansio ymgyrch Uwch Gomisiwn Canada, 'Canada Goes Cymru', gan gynnwys partneriaid FOCUS Wales o Ganada, gan alluogi artistiaid o Gymru i gael eu harddangos mewn gwahanol leoliadau yng Nghanada. Gwnaethom hyrwyddo dathliadau PRIDE hefyd, gan gynnwys cefnogaeth i'r rhai a fu'n cynrychioli Cymru yng Nghwpan Rygbi Hoyw y Byd 2022 yn Ottawa, a dangos y ffilm 'Donna' gan gyfarwyddwr o Gymru mewn cydweithrediad â Llysgenhadaeth UDA yn Ottawa ac Ottawa Capital Pride.



Roedd gan Ganada ffocws cryf ar y Cymry ar wasgar, gyda digwyddiadau iddynt yn Vancouver a Toronto i hyrwyddo Taith a datblygu rhwydwaith y rhai o Gymru. Gwnaeth ymweliad Côr Cymru Gogledd America â Calgary feithrin cysylltiadau â Chymdeithas Gymraeg Calgary a chynhaliwyd digwyddiad Cymry ar wasgar fel rhan o ymweliad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ran masnach a buddsoddi, gwnaethom gefnogi taith fasnach i Ganada gyda deuddeg cwmni o Gymru o'r sectorau ynni glân, technoleg a niwclear yn bennaf. Gwnaethom hyrwyddo MedTech a Seiberddiogelwch yn Uwchgynhadledd Deallusrwydd Artiffisial y Byd ym Montréal a gweithio gyda Llywodraeth y DU i arddangos cynnyrch o Gymru, gan gynnwys bwyd a diod, mewn digwyddiadau yn Ottawa, Montréal a Dinas Québec. Gyda Cymru Greadigol, Creative British Columbia ac Uchel Gomisiwn Canada, cynhaliwyd derbyniad ar gyfer cynhyrchwyr teledu a ffilm o Gymru a British Columbia i chwilio am gyfleoedd cyd-gynhyrchu ac i dynnu sylw at ddiwydiant creadigol Cymru.

Ymwelodd Asiant Cyffredinol newydd Ontario â Chymru i archwilio cyfleoedd yn y diwydiannau creadigol, niwclear, gweithgynhyrchu, insuretech ac addysg uwch - gan arwain at ddyfnhau'r berthynas rhwng Cymru ac Ontario.

Yn olaf, pan ddywedodd y dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol o Yukon, Pavlina Sudrich, ar gam fod Cymru'n rhan o Loegr ac yna postio ymddiheuriad ar-lein, manteisiodd y Prif Weinidog ar y cyfle i'w gwahodd i Gymru gan ddefnyddio sianel TikTok newydd Llywodraeth Cymru. Arweiniodd hyn at gydweithrediad i hyrwyddo Cymru ymhlith dilynwyr Pavlina yng Nghanada a thu hwnt. Cafodd yr ymweliad sylw yn y cyfryngau yng Nghymru, Canada ac ar draws y byd. Datblygodd Pavlina gynnwys a oedd yn hyrwyddo gwerthoedd Cymru, yr iaith, bwyd a diod, Dydd Miwsig Cymru, cysylltiadau chwaraeon drwy Glwb Pêl-droed Wrecsam, diwylliant a threftadaeth Cymru. Cafodd y fideos a gomisiynwyd eu gweld dros 5.5 miliwn o weithiau, gyda chyfraddau ymgysylltu uchel.

## Y Dwyrain Canol ac Asia

Ar ôl i Dîm Pêl-droed Dynion Cymru gyrraedd Cwpan y Byd Dynion FIFA yn Qatar 2022, canolbwyntiodd llawer o'r gweithgarwch yn y Dwyrain Canol ar y paratoadau ar gyfer y twrnamaint hwnnw. Mae astudiaeth achos sy'n rhoi mwy o fanylion am hyn wedi'i chynnwys.

Ym mis Mai, arweiniodd Gweinidog yr Economi daith fasnach i Qatar gyda chwmnïau o sectorau'n cynnwys bwyd a diod, gweithgynhyrchu a gwasanaethau hyfforddiant ac addysg. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Qatar Airways a Maes Awyr Caerdydd ynglŷn â'r llwybr Doha-Caerdydd, Awdurdod Parth Rhydd Qatar, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Qatar a'r pwyllgor cynllunio a oedd yn gyfrifol am drefnu Cwpan y Byd.

Yn y cyfnod cyn Cwpan y Byd, cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer y Cymry ar wasgar a hyrwyddo cig oen Cymreig ac allforion bwyd a diod eraill. Gyda Global Welsh a Chennad Llywodraeth Cymru i'r Emiraethau Arabaidd Unedig, gwnaethom helpu i ddarparu rhaglen

o weithgarwch busnes ar gyfer y Cymry ar wasgar yn Dubai yn ymwneud â gemau grŵp Cymru. Roedd gan y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi raglenni yn Qatar ar gyfer y gemau yn erbyn UDA a Lloegr yn y drefn honno, yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwerthoedd, cysylltiadau masnach a buddsoddi a chyfnewid diwylliannol Cymru. Yn ystod y misoedd ar ôl Cwpan y Byd, mae tîm y Dwyrain Canol wedi bod yn gwneud gwaith ymgysylltu dilynol, gan gynnwys ymweld â safle cloddio archeolegol 'Landscapes of Faith' (cydweithrediad rhwng Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Qatar Museums) yng ngogledd Qatar.

Mae gwaith wedi parhau i adeiladu rhwydweithiau'r Cymry ar wasgar yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig a Qatar, a chyda rhanddeiliaid a wnaeth gyfarfod â Gweinidog yr Economi yn ystod ei ymweliadau ag Expo Qatar a Dubai. Ymwelodd cronfa gyfoeth sofran yr Emiradau Arabaidd Unedig, Mubadala, â Chaerdydd i archwilio cyfleoedd buddsoddi yn y sectorau ynni a thechnoleg ariannol, ac rydym yn parhau i gefnogi ymgysylltiad Maes Awyr Caerdydd â Qatar Airways wrth i lwybr Doha/Caerdydd ailgychwyn.

Cynhaliwyd gweminarau masnach ar y clwstwr Gweithgynhyrchu Uwch, Arab Health ac allforio i'r Dwyrain Canol. Roeddem yn bresennol yn y World Future Energy Summit, Abu Dhabi, a BIG 5 a DEAL yn Dubai, a gwnaethom gefnogi Hybu Cig Cymru yng Ngwobrau BBC Good Food yn Dubai. Ym mis Ionawr, cefnogwyd taith fasnach aml-sector a fu'n ymweld â Dubai, ochr yn ochr â dirprwyaeth a fu'n ymweld ag Arab Health, a chynhaliwyd digwyddiad i'r cynrychiolwyr rwydweithio â'r Cymry ar wasgar yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig. Ym mis Chwefror, cefnogwyd ymweliad datblygu masnach â sioe fasnach Gulfood, ac yna digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi yn fuan wedyn yn Dubai a Doha yn hyrwyddo bwyd a diod Cymru, y Gymraeg, busnes a diwylliant. Cynhaliwyd digwyddiad rhwydweithio yn Qatar hefyd i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a hyrwyddo gwerthoedd Cymru ynghylch cydraddoldeb menywod a chydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Ym mis Hydref, ail-agorodd ffin Japan yn llawn. Roedd awydd am fwy o ymgysylltu â busnesau tramor, a nodwyd ailddechrau teithio rhyngwladol gan ddirprwyaethau twristiaeth a masnach o Gymru. Roedd derbyniad yn Llysgenhadaeth Prydain ar gyfer buddsoddwyr allweddol o Japan yn gyfle i ailddatgan perthynas Cymru â chwmnïau megis Sony a Panasonic cyn i gyfyngiadau teithio gael eu codi. Mae ymweliadau arfaethedig â Chymru gan gwmnïau o Japan mewn sectorau'n cynnwys ynni gwyrdd a lled-ddargludyddion a dirprwyaeth o lywyddiaeth Oita.



Mae gwaith masnach a buddsoddi wedi canolbwyntio'n benodol ar ynni adnewyddadwy, gyda dirprwyaeth o fwy na 50 o gynrychiolwyr o ddiwydiant ynni gwyrdd Japan, gan gynnwys cwmnïau gwynt ar y môr, yn ymweld â Chymru.

Yn Tokyo, cynhaliwyd digwyddiad gyda Chymdeithas Hydrogen Japan gyda thros 150 o bobl yn bresennol. Cefnogwyd taith fasnach o Gymru ym mis Hydref ar draws y sectorau bwyd a diod, creadigol/ technoleg, addysg, gweithgynhyrchu uwch, datgarboneiddio a thai. Cafodd bwyd a diod o Gymru ei arddangos yn siop adrannol Mitsukoshi ac mewn Gŵyl Gennin yn Ninas Fukaya. Bu cwmnïau bwyd a diod o Gymru’n arddangos yn Foodex 2023 yn Tokyo hefyd, gyda sesiwn samplu yn cael ei chynnal ym Mhreswylfa'r Llysgennad yn cynnwys cogyddion o Gymru a bwydlen Gymreig draddodiadol. Ym mis Rhagfyr, dathlwyd hanner can mlynedd o fuddsoddiad Japaneaidd yng Nghymru mewn derbyniad a gynhaliwyd gan Lysgennad Japan yn Llundain.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Oita, a lofnodwyd ar 1 Mawrth 2022, wedi bod yn llwyfan ar gyfer rhaglen ymgysylltu rhyngwladol gref. Nodwyd blwyddyn ers y llofnodi ar Ddydd Gŵyl Dewi gydag ymweliad gan Amgueddfa Cymru â'r Oita Prefecture Art Museum. Nodwyd tair blynedd ers Cwpan Rygbi'r Byd 2019 gyda chyfres o ddigwyddiadau gan gynnwys cyfarfodydd â Llywodraethwr Oita a derbyniad gyda busnesau lleol. Ymwelodd Llywodraeth Lywyddiaethol Oita â Chymru ac aeth myfyrwyr Prifysgol Oita i'r ysgol haf yn Aberystwyth. Aeth Only Boys Aloud ar daith ymchwil i Japan ym mis Chwefror a mis Mawrth, gyda deg perfformiad cyhoeddus ar draws Japan.

Yn India, rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar gysylltiadau addysg, gan gynnwys cefnogaeth i ddirprwyaeth o Telangana a ymwelodd â Chymru fel rhan o bartneriaeth bresennol Cymru Fyd-eang â'r Telangana State Council for Higher Education (TSCHE) a phartneriaid prifysgol, gyda'r nod o ddatblygu partneriaethau rhwng prifysgolion. O ran masnach a buddsoddi, mae'r ffocws wedi bod ar hyrwyddo Cymru fel lleoliad buddsoddi ar gyfer technoleg a gwyddorau bywyd, gan gynnwys digwyddiad ar gyfer busnesau newydd yn yr Indian Institute of Science.




Cynhaliodd India Gwpan Hoci'r Byd ym mis Ionawr, a chyda thîm Dynion Cymru’n cyrraedd y twrnamaint, roedd yn gyfle i godi proffil Cymru. Daeth y rhaglen â Hoci Cymru, Cymru Fyd-eang/Astudio yng Nghymru, prifysgolion a busnesau Cymru ynghyd. Cynhaliwyd digwyddiadau lletygarwch ar y cyd gan sicrhau sylw lleol helaeth.

Roedd y digwyddiadau'n cynnwys allgymorth ysgol yn y Kalinga Institute of Industrial Technology (KIIT), gyda thîm hoci Cymru yn chwarae hoci gyda'r plant lleol a gêm rygbi gyfeillgar ar wahân gyda staff. Gwnaethom ymweld â'r Kalinga Institute of Social Science (KISS) a chael trafodaethau am gyfnewid myfyrwyr/staff/academaidd, bwrdd crwn ar Fenywod mewn Technoleg/STEM a chyfarfod â Phrif Weinidog talaith Odisha. Gwnaethom ymweld â'r Tata Naval Hockey Academy gyda Hoci Cymru cyn gêm Cymru yn erbyn India yn Stadiwm Kalinga a chynnal derbyniad Cymreig, yn ogystal â dysgu am gefnogaeth KIIT, KISS a'r Tata Naval Academy i blant o gefndiroedd economaidd isel i gefnogi eu hyfforddiant i ddod yn sêr hoci cenedlaethol yn y dyfodol.

Parhaodd Covid-19 i effeithio ar weithgarwch yn Tsieina, gyda'r holl swyddfeydd yn profi cyfnodau estynedig o gyfyngiadau symud, gan ohirio gweithgareddau neu eu cyflwyno'n rhithwir. Roedd cysylltiadau addysg yn ffocws penodol, gan weithio gyda phrifysgolion ar recriwtio myfyrwyr a chyfleoedd partneriaeth, gan gynnwys hyrwyddo Taith. Darparwyd digwyddiadau cyn-fyfyrwyr, cefnogwyd dathliadau'r Jiwbilî a datblygwyd rhaglen gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i hyrwyddo pêl-droed Cymru i farchnad Tsieina yn y cyfnod cyn Cwpan y Byd.

Cefnogwyd allforwyr o Gymru sydd â diddordeb yn Tsieina, gyda ffocws arbennig ar y sectorau gwyddorau bywyd a bwyd a diod. Bu cynnydd yn y diddordeb mewn bwyd a diod o Gymru yn y China Food & Drinks Fair yn Chengdu.

# Cwpan Pêl-droed Dynion FIFA, Qatar

## 20 Tachwedd 2022 – 18 Rhagfyr 2022



Ym mis Mehefin 2022, cyrhaeddodd tîm pêl-droed cenedlaethol dynion Cymru rowndiau terfynol Cwpan y Byd FIFA am y tro cyntaf ers 64 mlynedd. Roedd y twrnamaint yn gyfle unigryw i hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang.



Roedd pedwar amcan allweddol ar gyfer Cwpan y Byd – hyrwyddo Cymru; cyfleu ein gwerthoedd; sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru a sicrhau etifeddiaeth gadarnhaol o'n cyfranogiad. Roedd y gweithgarwch yng Nghymru, ac ym mhedwar ban byd, yn gyfle i godi pryderon am hawliau gweithwyr a phobl LHDTC+ yn Qatar, yn ogystal â chyflwyno gwerthoedd Cymru ar lwyfan byd-eang.



Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Doha a Dubai oedd ffocws y gweithgarwch a oedd yn digwydd o amgylch y gemau, ond roedd y twrnamaint yn gyfle i weddill y rhwydwaith tramor gynnal gweithgarwch i hyrwyddo Cymru a'n gwerthoedd hefyd.



Fis cyn Cwpan y Byd, trefnodd Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y Dwyrain Canol, gan weithio mewn cydweithrediad â'r Is-adran Bwyd a Diod, swper i arddangos allforion bwyd a diod o Gymru - gan gynnwys cig oen Cymreig - ym mhreswylfa'r Llysgennad i 40 o brynwyr allweddol yn Qatar yn y sectorau manwerthu a lletygarwch.



Yn y Dwyrain Canol, teithiodd y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi i Doha i gefnogi Cymru yng ngemau'r grŵp. Cyhoeddwyd Datganiadau Ysgrifenedig ar 28 Tachwedd a 5 Rhagfyr yn amlinellu ehangder y rhaglenni a gynhaliwyd gan y ddau Weinidog a oedd yn cynnwys cyfarfodydd diwylliannol, economaidd a diplomyddol. Yn ogystal â chyflwyno dwy raglen Weinidogol, roedd gweithgarwch yn y Dwyrain Canol ar gyfer Cwpan y Byd yn eang iawn.



Gweithiodd tîm y Dwyrain Canol gyda phartneriaid i lansio gosodiad Het Bwced ar y Corniche yn Doha i hyrwyddo Cymru yn y twrnamaint, i ddarparu cynnwys Cymreig yn yr UK GREAT Garden Pavilion and Festival a derbyniad â thema Gymreig, a gynhaliwyd gan Lysgennad Prydain i Qatar. Daeth yr Het Bwced yn ganolbwynt i gyfryngau byd-eang, gan gael sylw mewn delweddau a ddarlledwyd ledled y byd.

Er mwyn hyrwyddo diwylliant Cymru, cefnogodd y tîm yr Urdd i gyflwyno gweithdai ysgol a pherfformiadau corawl, yn ogystal â gweithio gyda Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i gyflwyno amrywiaeth o berfformiadau diwylliannol gan berfformwyr ac artistiaid o Gymru. Cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer y Cymry ar wasgar yn y Dwyrain Canol, gan weithio gyda phartneriaid, megis Cymru Fyd-eang a gynhaliodd dderbyniad yng ngardd preswylfa'r Conswl Cyffredinol yn Dubai ar gyfer 100 o westeion. Cynhaliodd tîm Llywodraeth Cymru yn Doha frecwast rhwydweithio ar gyfer 35 aelod o'r Cymry ar wasgar yn Qatar.

Yn UDA, roedd rhaglen weithgareddau uchelgeisiol gyda gêm Cymru yn erbyn UDA yn ganolbwynt iddi. Ymwelodd Gweinidog yr Economi â Washington DC i arwain gweithgarwch Cwpan y Byd Llywodraeth Cymru a datblygu'r berthynas â chysylltiadau gwleidyddol a busnes allweddol yn DC. Roedd yr ymweliad yn cynnwys bwrdd crwn gyda mewnfuddsoddwyr allweddol, cyfarfod â Dirprwy Faer DC, yn ogystal â dangosiad Soccer in the Circle o gêm Cymru yn erbyn UDA yng Ngŵyl Dupont. Cafwyd sylw cadarnhaol yn y cyfryngau yn UDA a Chymru yn sgil yr ymweliad.

Cynorthwywyd S4C gan y tîm UDA yn Efrog Newydd i gyflwyno cyngerdd yn y ddinas, yn ogystal â chynnal digwyddiadau eraill, gan gynnwys dangosiad o 'Welcome to Wrexham', trafodaethau panel a pharti gwylio. Cynhaliwyd cystadleuaeth e-gemau, yn gysylltiedig â thwrnamaint gemau FIFA, yn Atlanta, a chynhaliwyd derbyniadau busnes a'r Cymry ar wasgar yn Chicago a Los Angeles. Cynhaliwyd gweithgarwch ychwanegol o amgylch y gêm hon, gan gynnwys ymgyrch LinkedIn ar arfordir gorllewinol UDA yn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan busnes, ymweliad â 'Chwaer-ddinas' y Mwmbwls i adeiladu ar y berthynas honno ac ymweliadau gan artist yr Urdd i ddarlunio gêm Cymru yn erbyn UDA. Roedd gweithgarwch yn y cyfryngau yn ystod cyfnod y gêm, gan gynnwys erthyglau nodwedd yn y Washington Post, FOX5, HANSH ac amryw o orsafoedd radio lleol yn UDA. Cafwyd gweithgarwch hefyd mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU o amgylch gêm Lloegr yn erbyn Cymru.

Cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer y gemau ar draws Canada yn Halifax, Ottawa, Toronto a Vancouver gan ddefnyddio cysylltiadau hen a newydd y Cymry ar wasgar a ddatblygwyd drwy ein blwyddyn Cymru yng Nghanada.

Cynhelir Cwpan y Byd nesaf FIFA ar draws Gogledd America yn 2026 ac mae'r gweithgarwch hwn yn rhoi llwyfan defnyddiol i ddysgu a datblygu gweithgarwch yn y dyfodol ar gyfer y twrnamaint nesaf ymhen pedair blynedd.

Cynhaliwyd digwyddiadau ar draws Ewrop ym Mrwsel, Dulyn, Paris a Berlin. Yn Nulyn, ymunodd y tîm â Llysgenhadaeth UDA i Iwerddon i gyd-gynnal dangosiad o gêm Cymru yn erbyn UDA a chynnal digwyddiad sgwrs gyda Noel Mooney, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Neville Southall ac Ian Rush. Defnyddiodd Brwsel y twrnamaint fel llwyfan i gynnal digwyddiad panel, mewn partneriaeth â Chenhadaeth y DU i'r UE, ar amrywiaeth a chynhwysiant mewn pêl-droed gyda siaradwyr o Gymdeithas Bêl-droed Cymru, Uwch Gynghrair Lloegr a Senedd Ewrop. Yn Ffrainc, gosodwyd baner “C'mon Cymru” wrth fynedfa Llysgenhadaeth Prydain ym Mharis. Roedd y ddau ddigwyddiad yn Berlin yn arddangos bwyd a diod o Gymru, gan ddenu dros 100 o randdeiliaid i’r naill a’r llall.

Cynhaliodd Southbank Llundain Tŷ Cymru/Wales Dome am bedwar diwrnod ym mis Tachwedd. Cynhaliwyd amryw o ddigwyddiadau yn Nhŷ Cymru, gan gynnwys trafodaeth banel ar fewnfuddsoddiad technoleg ariannol, digwyddiadau yn y Gymraeg, dangosiadau celfyddydol a pherfformiad gan Ysgol Gymraeg Llundain ac Ysgol Gynradd Griffin.

Yn Japan, bu'r tîm yn gweithio gyda dylanwadwr pêl-droed a sefydliadau cyfryngau i hyrwyddo Cymru a'r Wal Goch a datblygu straeon yn ymwneud â chwaraewyr Cymru. Denodd darllediad cyhoeddus o gêm Cymru yn erbyn Iran yn Ninas Himeji gynulleidfa fawr a chefnogodd Castell Kitakyushu Kokura dîm pêl-droed cenedlaethol Cymru gydag ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn anffodus, effeithiodd y cyfyngiadau Covid yn Tsieina ar allu'r tîm i ddarparu digwyddiadau arfaethedig megis gŵyl bêl-droed yn Beijing a digwyddiad arddangos Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn Chongqing. Fodd bynnag, llwyddodd swyddfa Shanghai i weithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i ddarparu gemau pêl-droed pump bob ochr gyda rhai o Gymru, cysylltiadau busnesau allweddol a chlybiau pêl-droed lleol, sy'n golygu, er gwaethaf y cyfyngiadau a'r rhwystrau, bod tîm China wedi gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynwyd gan Gwpan y Byd.

# Cymru yng Nghanada 2022

Nod y blynyddoedd thema 'Cymru yn...' yw cryfhau'r berthynas rhwng Cymru a'r wlad bartner a rhoi ffocws strategol i'n gweithgarwch. Maent yn ymwneud â meithrin cysylltiadau – hen a newydd. Yn 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei hymgyrch "Cymru yn..." gyntaf o'r enw 'Cymru yn yr Almaen 2021'. Yn dilyn y llwyddiant yn yr Almaen, penderfynwyd parhau â'r prosiect 'Cymru ym...' am ddwy flynedd arall, gyda Cymru yng Nghanada 2022 ac yna Cymru yn Ffrainc 2023.















## Amcanion Cymru yng Nghanada 2022

Montréal yw cartref Llywodraeth Cymru yng Nghanada, ac mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn Québec, yn enwedig Llywodraeth Québec, wedi mynd o nerth i nerth ers agor y swyddfa yno yn 2018. Cyflwynodd Cymru yng Nghanada 2022 gyfle i gryfhau a dyfnhau'r cysylltiadau presennol yn Quebec ac adeiladu ar y gwaith hwn i greu partneriaethau newydd a chynyddu amlygrwydd Cymru ar draws rhannau eraill o Ganada.

Nododd tîm Canada bedwar prif amcan ar gyfer y flwyddyn:

1. Ymgysylltu â chynulleidfa ehangach, gan gynnwys cynyddu rhwydwaith y Cymry ar wasgar yng Nghanada.
2. Adeiladu a dyfnhau ein perthynas gref â Québec.
3. Creu a datblygu partneriaethau newydd mewn Taleithiau a Thiriogaethau ar draws Canada.
4. Creu etifeddiaeth sy'n parhau i ychwanegu gwerth at gyflwyno'r Strategaeth Ryngwladol ym marchnad Canada unwaith y bydd y flwyddyn Cymru yng Nghanada wedi dod i ben.

Darparwyd mwy na 35 o weithgareddau ar draws saith talaith yng Nghanada, yn ogystal â gweithgareddau rhithwir a lwyddodd i ennyn diddordeb miliynau o bobl.

## Ymgysylltu â'r Cymry ar wasgar

Er mwyn cynyddu cyrhaeddiad a datblygu rhwydwaith hirhoedlog o gysylltiadau newydd, canolbwyntiwyd ar dri pheth: sylw cadarnhaol yn y cyfryngau; mwy o gyfathrebu a chyswllt drwy'r cyfryngau cymdeithasol; a datblygu ac arallgyfeirio ein Cymry ar wasgar ar draws Canada.

Cawsom sylw ar dri rhwydwaith teledu yng Nghanada - CBS, TCC a TSN - a thri rhwydwaith teledu yng Nghymru - BBC Cymru, ITV Cymru ac S4C. Cawsom sylw mewn un erthygl farn yn y Globe and Mail - papur newydd mwyaf poblogaidd Canada gyda dros saith miliwn o ddarllenwyr ledled y wlad. Ar wahân i hynny, ysgrifennwyd un erthygl farn hyd llawn yn gyfan gwbl yn y Gymraeg i nodi'r ffaith bod Cymru wedi cyrraedd Cwpan Pêl-droed y Byd. Llwyddwyd hefyd i drefnu cyfweliad sain ar gyfer y Prif Weinidog gyda CBS.

Yn sgil ein cydweithrediad â dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol o'r Yukon edrychwyd ar gynnwys Cymru dros 5.3 miliwn o weithiau ar draws TikTok ac Instagram yn unig, gyda bron i 750,000 o bobl yn hoffi'r cynnwys a lefel uchel o ymgysylltiad gan ddefnyddwyr.

Er mwyn datblygu ein rhwydwaith Cymry ar wasgar ar draws Canada, cynhaliwyd digwyddiadau rhwydweithio i rai ar wasgar ac o Gymru yn Toronto, Halifax a Vancouver, gan weithio gyda Cymru Fyd-eang, rhanddeiliaid eraill a sefydliadau lleol Cymry ar wasgar i gyrraedd rhai o Gymru a chysylltiadau newydd sydd â chysylltiad â Chymru. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cynhaliwyd digwyddiadau Cwpan y Byd fel rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru o amgylch Cwpan y Byd Qatar – yn Halifax, Ottawa, Toronto a Vancouver.

## Dyfnhau'r Berthynas â Québec

Gwnaethom groesawu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (WAI) yn ystod y flwyddyn. Roedd ymweliad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys ymgysylltu â Phrifysgol McGill, seminar rhithwir gyda phanelwyr o bob rhan o Ganada. Ymwelodd WAI â'r *Société des Arts Technologiques* (SAT) a chyfarfod â'r *Conseil des Arts et des Lettres du Québec* (CALQ). Ynghyd â CALQ, cyhoeddodd WAI dri phreswyliad artistig dwyochrog rhwng Cymru a Québec, gyda'r cyntaf yn cael ei gynnal yn y *Centre des Musiciens du Monde* ym Montréal yn ystod hydref 2023.

Teithiodd Asiant Cyffredinol newydd Québec yn y DU, Line Rivard, i Gymru ar gyfer ei chyfarfod cyntaf â'r Prif Weinidog, gan fynd ar daith o'r Senedd a chyfarfod â sawl partner allweddol o Québec yng Nghymru.

## Datblygu Cysylltiadau Newydd ar draws Canada

Mae cyfleoedd a synergeddau i Gymru ar draws Canada, yn arbennig yn Ontario, British Columbia a'r Taleithiau Arforol oherwydd maint y boblogaeth, diwydiannau allweddol megis ynni adnewyddadwy a thechnoleg, a dealltwriaeth gyffredinol dda o beth yw Cymru a ble mae hi. Dyma gipolwg ar weithgarwch ym mhob talaith.

### Ontario

- *Derbyniad Rhai o Gymru yn Toronto*: Ar y cyd â Cymru Fyd-eang, cynhaliwyd derbyniad gyda'r nos i gyrraedd rhai o Gymru a chysylltiadau newydd sydd â chysylltiad â Chymru. Roedd yn gyfle hefyd i ddathlu ysgoloriaeth ôl-raddedig Cymru Fyd-eang a oedd ar gael i fyfyrwyr o Ganada fel rhan o'r flwyddyn Cymru yng Nghanada.
- *Drysau Agored Ottawa:* Digwyddiad arddull 'parti stryd' ym mhreswylfa'r DU oedd yn agored i'r cyhoedd. Yn y digwyddiad, trefnwyd stondin Cymru gyda phrofiad twristiaeth Cymru trochol gan ddefnyddio pensetiau VR. Daeth dros 2,000 o ymwelwyr i'r digwyddiad.

### British Columbia, Alberta a'r Yukon

- *Bord gron polisi rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiwn Economaidd Vancouver (VEC):* yn canolbwyntio ar ymagweddau'r Cenhedloedd Cyntaf at lesiant a rhannu gwybodaeth rhwng Cymru a Chanada.
- *Breakout West Festival:* Ar y cyd â FOCUS Wales, cefnogwyd tri chyngerdd arbennig gydag artistiaid o Gymru a chynnal sesiwn gerddoriaeth gydag artistiaid Cymraeg ac Ieithoedd Brodorol. Ar Ddiwrnod Gwirionedd a Chymodi, siaradodd WAI ac aelod o'r band Cymraeg, Adwaith, ar banel ar y cyfraniad mae cerddoriaeth yn ei wneud at warchod a hyrwyddo ieithoedd brodorol.
- *Hyrwyddo Cymru trwy ddylanwadwr cyfryngau cymdeithasol o'r Yukon:* Ymatebodd y Prif Weinidog i ymddiheuriad y crëwr cynnwys cyfryngau cymdeithasol o'r Yukon, Pavlina Sudrich, i Gymru ar ôl dweud ar gam fod Cymru'n rhan o Loegr. Cafodd neges y Prif Weinidog ei phostio o sianel TikTok newydd Llywodraeth Cymru ac edrychwyd arni ddeg gwaith cymaint â phostiadau nodweddiadol ar y sianel honno.

### Nova Scotia

- *Tîm Rygbi Merched Cymru yng Nghanada:* Chwaraeodd Cymru a Chanada ei gilydd yn Halifax, Nova Scotia, yn y cyfnod cyn Cwpan Rygbi'r Byd yn Seland Newydd ym mis Hydref 2022. Cynhaliwyd cysylltiadau busnes a gwleidyddol a chyda'r Cymry ar wasgar a gwneud rhywfaint o waith noddi i farchnata twristiaeth i Gymru.

## Etifeddiaeth

Rydym wedi cynyddu ac arallgyfeirio rhwydwaith y Cymry ar wasgar a Chyfeillion Cymru sydd wedi ein galluogi i gyrraedd cynulleidfa leol ehangach mewn lleoliadau o bwys lle nad oes gan Lywodraeth Cymru bresenoldeb corfforol. Rydym wedi cynyddu gwelededd Cymru a negeseuon Cymru yng Nghanada ac mae gennym biblinell y gellir ei holrhain o gydweithrediadau a gweithgareddau ar y cyd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng Cymru a rhanddeiliaid yng Nghanada.

Mae enghreifftiau hyd yma’n cynnwys:

- Ymestyn Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang i fyfyrwyr o Ganada. Nod yr Ysgoloriaeth yw annog mwy o gysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r rhai yng Nghanada.

- Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi llofnodi cytundeb gyda'r *Conseil des Arts et des Lettres du Québec* (CALQ) ar gyfer tri phreswyliad artistig dwyochrog rhwng Cymru a Québec, gan gefnogi chwe artist.

- Trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Ontario ynghylch arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar draws sawl sector er lles pawb, gyda chynllun gweithredu cysylltiedig.

- 12 prosiect ar y cyd rhwng rhanddeiliaid o Gymru a Québec i'w cynnal yn 2023, gyda phedwerydd Cais am Gynigion i'w lansio yn 2023.

- Cynnwys ar-lein apelgar sy'n cyflwyno ein negeseuon allweddol ac yn codi ymwybyddiaeth o Gymru ar draws cyfres amrywiol o blatfformau.

# Perthynas ag Ewrop

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu ag Ewrop, gan gynnwys drwy sefydliadau Ewropeaidd, rhwydweithiau a chysylltiadau cenedlaethol a rhanbarthol â blaenoriaeth. Adlewyrchir hyn yn ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gadw Swyddfa Brwsel Llywodraeth Cymru, a phenodi Derek Vaughan, Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop, ym mis Ionawr 2022.






Mae ein tîm ym Mrwsel yn sbarduno ymgysylltiad rhagweithiol a chadarnhaol Llywodraeth Cymru â'i phartneriaid Ewropeaidd, gyda thri phrif nod:



1. Atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid Ewropeaidd ar fuddiannau polisi cyffredin – addysg, ymchwil ac arloesi, hinsawdd, yr amgylchedd, ynni, amaethyddiaeth, materion arfordirol a morol, cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb.



2. Codi proffil Cymru a pholisïau unigryw Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at fuddiannau polisi cyffredin – er enghraifft, rhaglen cyfnewid ar gyfer dysgu Taith, cynllun peilot incwm sylfaenol, gwaharddiad ar blastigau untro a'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol flaengar.



3. Monitro a dadansoddi datblygiadau polisi'r UE a allai fod â goblygiadau i Gymru a pholisi Llywodraeth Cymru.



Mae rôl ein Cynrychiolydd Ewropeaidd yn cryfhau ein gallu i ymgysylltu â Sefydliadau Ewropeaidd yn benodol, gan arwain at fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bolisïau Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae gan Derek Vaughan gefndir a gwybodaeth gref am y sefydliadau Ewropeaidd, sydd wedi bod o fudd i'n gwaith ymgysylltu yno.

Un enghraifft o hyn yw bod Llywodraeth Cymru wedi cael cais i gynnal digwyddiad yn tynnu sylw at y rhaglen Taith yn Senedd Ewrop, gan gynnwys cynulleidfa o ASEau a rhanddeiliaid symudedd dysgu'r UE.

Mae tîm Brwsel Llywodraeth Cymru’n gweithio'n agos gyda sefydliadau Cymreig eraill, megis Addysg Uwch Cymru Brwsel a'r Senedd, sydd ill dau â phresenoldeb yn Nhŷ Cymru. Mae'r dull "Tîm Cymru" cydgysylltiedig hwn yn helpu i gynyddu effaith a gwelededd ymdrechion Cymru i ymgysylltu â'r UE. Mae Cymru'n parhau i gael ei gwahodd i weithio gyda Senedd Ewrop a sefydliadau eraill, er enghraifft, Pwyllgor y Rhanbarthau, ar ddigwyddiadau eraill lle gellir tynnu sylw at ddulliau polisi penodol Cymru.

Mae Swyddfa Brwsel yn arwain ein hymgysylltiad â nifer o rwydweithiau Ewropeaidd hefyd, yn enwedig Menter Vanguard - sy'n cael ei chadeirio gan Gymru yn 2023 - a Chynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR), a fydd yn cynnal ei Chynulliad Cyffredinol o ranbarthau'r Iwerydd yng Nghaerdydd ym mis Mai 2023. Mae ein hymgysylltiad â rhwydweithiau'r UE yn rhoi llwyfan i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â phartneriaid Ewropeaidd ar fuddiannau polisi cyffredin, yn ogystal â chodi proffil Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltiad dwyochrog â chenhedloedd a rhanbarthau Ewropeaidd, gan gynnwys trwy ein Datganiad a Rennir a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru, yn ogystal â Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda sawl rhanbarth, gan gynnwys Llydaw a Gwlad y Basg. Mae ein tîm ym Mrwsel a'r Cynrychiolydd Ewropeaidd yn cryfhau'r berthynas drwy ymgysylltu â swyddfeydd y rhanbarthau hynny ym Mrwsel, a'u cynrychiolwyr yn Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau.

© Hawlfraint y Goron 2023
WG47370 ISBN Digido 978-1-80535-829-9

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Ymchwiliad i'r Berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon - Papur Tystiolaeth**

## Y Berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon

Mae Cymru ac Iwerddon yn gymdogion agos ac maent wedi meithrin perthynas gref a chadarnhaol ar hen gysylltiadau a dealltwriaeth ddiwylliannol ddofn. Mae ein perthynas fodern a bywiog wedi tyfu o gysylltiadau hanesyddol, treftadaeth a diwylliant cyffredin, a chysylltiadau agos rhwng pobl, busnesau, diwylliannau a chwaraeon.

Crëwyd amgylchedd galluogi newydd ar gyfer Cymru ac Iwerddon drwy lofnodi Cytundeb Gwener y Groglith yn 1998 a arweiniodd at sefydlu'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd datblygiadau pellach sydd wedi rhoi hwb i'n hymgysylltiad ac, yn 2012, agorodd Llywodraeth Cymru swyddfa yn Llysgenhadaeth Prydain yn Nulyn i fanteisio ar y gweithgareddau hyn.

Mewn cyd-destun busnes, mae Cymru'n gartref i oddeutu 85 o gwmnïau sydd â phencadlys yn Iwerddon ac mae'n cyfrif Iwerddon fel ei hail farchnad allforio fwyaf y tu ôl i Unol Daleithiau America. Mae Porthladd Caergybi, yr ail borthladd gyrru i mewn ac allan mwyaf yn y DU ar ôl Dover, yn dal yn elfen hanfodol o goridor Masnach Môr Iwerddon, hyd yn oed gyda'r heriau ar ôl Brexit.

### Rhaglenni'r UE

Mae ein daearyddiaeth yn golygu bod Cymru ac Iwerddon yn rhannu stori forwrol gyffredin. Ers 1994, mae Rhaglen INTERREG yr UE wedi hwyluso'r broses o gydweithredu ar draws ffiniau ac adeiladu rhwydweithiau polisi ar draws Môr Iwerddon.

Mae rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon-Cymru 2014-2020 yn rhaglen forwrol sy'n cysylltu sefydliadau, busnesau a chymunedau ar arfordir Gorllewin Cymru ag arfordir De-Ddwyrain Iwerddon. Mae'r rhaglen yn werth tua €100m yn gyffredinol, gan ddefnyddio €79m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Arloesi trawsffiniol
- Sut mae Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol yn Addasu i Newid yn yr Hinsawdd
- Treftadaeth ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol

Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw'r llwyddiannau a geir drwy'r Rhaglen Iwerddon-Cymru yn cael eu colli a bod ymchwil yn parhau i fod ar flaen y gad o ran ein cydweithrediad ag Iwerddon.

### Perthynas ar ôl Brexit

Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon wedi parhau i dyfu, gan adeiladu ar y sylfeini cryf sydd wedi'u gosod ers 1998. Mae digwyddiadau allweddol yn hanes parhaus ein perthynas wedi'u nodi isod.

Yn 2019, ail-agorodd Llywodraeth Iwerddon Swyddfa Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd. Mae ailsefydlu'r Conswl yn brawf o ymrwymiad Iwerddon i gynyddu cydweithrediad a chydweithio â Chymru ar draws y sectorau busnes, celfyddydau, chwaraeon a chymunedol.

Lansiwyd Cynghrair Datblygwyr y Môr Celtaidd (partneriaeth rhwng Cymru, Iwerddon, Cernyw ac Ynysoedd Sili) yn 2019 i osod sylfeini ar gyfer cydweithredu llawnach yn y Môr Celtaidd. Un aelod o'r Gynghrair yw Simply Blue Energy, sef datblygwr ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth Iwerddon gyda swyddfeydd yn Cork a Doc Penfro. Mae'r cwmni'n gweithio mewn partneriaeth â Total Energies i ddatblygu prosiect ynni gwynt arnofiol cyntaf Cymru yn y Môr Celtaidd. Newid yn yr hinsawdd yw her ddiffiniol ein hoes a dyna pam ein bod wedi ymrwymo i flaenoriaethu camau gweithredu sy'n cefnogi'r broses o addasu a lliniaru'r hinsawdd, twf gwyrdd a'r newid i garbon sero net, ac economi gylchol.

Ym mis Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Iwerddon i gryfhau'r berthynas â Chymru yn ei Rhaglen Lywodraethu ac, o ganlyniad i hyn, y Cyd-ddatganiad a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd a lofnodwyd yn 2021, mae Cymru ac Iwerddon bellach yn cydweithio'n uniongyrchol ar lefel wleidyddol a swyddogol ar draws amrywiaeth o feysydd polisi a diwylliannol.

**<u>Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru</u>**

Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd newydd (y Datganiad) a oedd yn nodi uchelgeisiau ar y cyd ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon tan 2025. Drwy'r Datganiad, rydym wedi ymrwymo i hwyluso a chefnogi cydweithrediadau a fydd yn sicrhau canlyniadau parhaol a chadarnhaol a fydd o fudd i'r naill ochr a'r llall.

Mae'r Datganiad yn nodi chwe maes blaenoriaeth ar gyfer cydweithredu:

**1. Ymgysylltu Gwleidyddol a Swyddogol**

Mae'r Datganiad yn ymrwymo Gweinidogion a swyddogion i gynnal Fforwm blynyddol ar gyfer Gweinidogion Cymru ac Iwerddon er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid gwleidyddol, economaidd a rhanddeiliaid ehangach a datblygu cysylltiadau a fydd yn cyflawni ar botensial cyfleoedd nawr ac yn y dyfodol.

**2. Yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd**

Mae'r ddwy lywodraeth wedi cytuno ar frys i weithredu i ymateb i her fyd-eang ddiffiniol ein hoes – newid yn yr hinsawdd. Mae'r Datganiad yn blaenoriaethu gweithio ar y cyd sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy, drwy addasu a lliniaru'r hinsawdd, twf gwyrdd a'r newid i garbon sero net ac economi gylchol.

**3. Masnach a Thwristiaeth**

Mae'r ddwy lywodraeth wedi nodi bod llifoedd masnach yn ganolog i'r cysylltiadau economaidd cryf rhwng Iwerddon a Chymru. Mae'r bont tir sy'n cysylltu Iwerddon â marchnadoedd eraill yr UE yn chwarae rhan bwysig yn y ddwy economi. Mae Cymru

ac Iwerddon wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd i helpu busnesau i addasu i'r cyd-destun newydd a ddarperir gan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU.

**4. Addysg ac Ymchwil**

Mae llawer o'r cysylltiadau cryf presennol rhwng sefydliadau academaidd wedi'u selio ar raglenni'r UE fel y Rhaglen Fframwaith ar gyfer Ymchwil (Horizon 2020), Erasmus+, y Rhaglen Iwerddon-Cymru, a rhaglenni cydweithredu ymchwil y DU-Iwerddon. Drwy'r Datganiad, rydym wedi ymrwymo i gefnogi sefydliadau i ymchwilio i bob llwybr i gynnal cydweithrediadau cryf wrth i ni addasu i'r amgylchedd newydd ar ôl i'r DU adael yr UE.

**5. Diwylliant, Iaith a Threftadaeth**

Mae Cymru ac Iwerddon yn elwa o dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog sy'n cael ei rhannu'n aml. Mae'r ddwy wlad yn hyrwyddo eu hunaniaeth drwy berfformwyr diwylliannol ac yn defnyddio'r diwydiannau creadigol fel arf economaidd a chymdeithasol gartref. Mae'r datganiad yn nodi sut byddwn yn parhau i gefnogi ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol a lleol, a'n hartistiaid, ein hawduron a'n perfformwyr i gydweithio ar draws Cymru ac Iwerddon.

**6. Cymunedau, Cymry/Gwyddelod ar Wasgar a Chwaraeon**

Drwy gydol hanes, mae teuluoedd ac unigolion wedi symud rhwng Cymru ac Iwerddon. Rydym wedi ymrwymo i rannu ein profiadau o ymgysylltu â Chymry/Gwyddelod ar wasgar a dysgu oddi wrth ein gilydd i ddyfnhau a chyfoethogi ein cysylltiadau â'n cymunedau sydd ar wasgar dramor.

**<u>Darparu'r Cyd-ddatganiad a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd</u>**

Mae cynnydd wedi bod yn erbyn pob un o'r chwe maes cydweithredu a nodir yn y Datganiad, gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Iwerddon a'n sefydliadau partner yn bwrw ymlaen â'r gwaith. Mae enghreifftiau o gyflawni a chynnydd yn erbyn pob un o'r chwe maes yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

**1. Ymgysylltu Gwleidyddol a Swyddogol**

Drwy gydol 2021 a 2022, roedd chwe chyfarfod Gweinidogol dwyochrog ar wahân, yn ogystal â'r cyfarfodydd dwyochrog a gynhaliwyd yn Fforymau Gweinidogol Iwerddon-Cymru. Ym mis Ionawr 2021, trefnodd Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Iwerddon a Swyddfa Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd ddigwyddiad ar y cyd rhwng Cenhadaeth Iwerddon a'r DU i'r Cenhedloedd Unedig o'r enw "Small Nations, Big Ambitions: Future Generations and Gender Equality".

Ym mis Hydref 2022, cafodd Swyddfa Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd ei hagor gan Simon Coveney TD, Gweinidog Tramor Iwerddon. Mae dau Fforwm Gweinidogol Iwerddon-Cymru wedi cael eu cynnal, un yng Nghaerdydd ac un yn Cork, a oedd yn cynnwys trafodaethau rhwng naw Gweinidog gwahanol - bydd Fforwm Gweinidogol 2023 yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru.

## 2. Yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd

Rydym wedi cefnogi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gymryd rhan mewn ffrwd waith cyfnewid polisi ar gynaliadwyedd, gan gynnwys trefnu ymweliad â Dulyn ym mis Hydref 2022. O ganlyniad i'r gwaith hwn, daeth aelod o Blaid Werdd Iwerddon â bil aelodau preifat i'r Dáil ar Genedlaethau'r Dyfodol ac mae Llysgennad Ieuenctid y Cenhedloedd Unedig yn Iwerddon 2022 wedi cael ei ddewis yn Llysgennad Byd-eang Cenedlaethau'r Dyfodol.

Daeth Greenlink Interconnector i ben yn ariannol ym mis Mawrth 2022 ac, ym mis Mawrth 2023, rhoddodd Llywodraeth Cymru ganiatâd i Simply Blue Energy ddatblygu fferm wynt arnofiol gyntaf Cymru. Aeth Enterprise Ireland i Gynhadledd Flynyddol Ynni'r Môr Cymru yn 2023 i archwilio cyfleoedd ar gyfer y gadwyn gyflenwi yn y Môr Celtaidd.

## 3. Masnach a Thwristiaeth

Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaeth Taoiseach gwrdd â buddsoddwyr o Iwerddon yn Neuadd y Ddinas Caerdydd, pob un ohonynt yn cefnogi ein huchelgeisiau Sero Net. Mae pedair taith fasnach wahanol wedi bod i Iwerddon ers llofnodi'r Datganiad, gyda 26 o gwmnïau'n teithio i Iwerddon o sectorau fel ynni adnewyddadwy, gwasanaethau ariannol a gwyddorau bywyd. Yn dilyn y Fforwm Gweinidogol cyntaf yn 2021, mae Enterprise Ireland hefyd wedi cefnogi cwmnïau i ymweld â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i ddatblygu cydweithrediad masnach.

## 4. Addysg ac Ymchwil

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio dwy gronfa ymchwil Cymru Ystwyth i gefnogi'r broses o gydweithio â Sefydliadau o Iwerddon ar draws Môr Iwerddon. Ar ôl lansio'r Datganiad, mae'r ddwy lywodraeth wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar gyfleoedd cyllido yn y dyfodol i sicrhau bod y cynnydd a'r partneriaethau a wneir drwy raglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon-Cymru yn gallu parhau.

Yn 2021, lansiwyd "Cynghrair yr Academïau Celtaidd" i gyfuno arbenigedd mewn heriau cyffredin. Mae hon yn bartneriaeth rhwng yr Academi Frenhinol Wyddelig, Cymdeithas Ddysgedig Cymru a Chymdeithas Frenhinol Caeredin.

Lansiodd Llywodraeth Cymru'r rhaglen Taith yn 2022, sydd wedi cael ei hyrwyddo ar draws Iwerddon. Mae'r gwaith hyrwyddo hwn yn cynnwys ymweliad y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg â Dulyn ym mis Mawrth 2023. Hefyd, yn ystod yr ymweliad hwn, cyfarfu'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg â sefydliadau academaidd allweddol, Gweinidogion Llywodraeth Iwerddon, a phartneriaid diwylliannol ac ieithyddol i gadarnhau ein hymrwymiad i'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon.

## 5. Diwylliant, Iaith a Threftadaeth

Ym mis Mai 2022, roedd swyddfa Llywodraeth Cymru yn Iwerddon yn nodi Degawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig drwy gynnal darlith gyntaf Dewi Sant a San Padrig o'r enw: *Dewi Padraig Dialogue*, mewn partneriaeth â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Phrifysgol Dinas Dulyn. Roedd hefyd yn lansiad yr ymgyrch Gwrando gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Mae

ein Cynghorau Celfyddydau yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd am heriau cyffredin. Mae tîm Llywodraeth Cymru yn Iwerddon wedi cefnogi arddangosfeydd artistig yng Ngŵyl Ffilmiau Dulyn, Gŵyl Ymylol Dulyn a Gŵyl San Padrig.

Mae'r berthynas rhwng ein Hamgueddfeydd Cenedlaethol yn parhau i dyfu, gan gynnwys cymryd rhan mewn cynhadledd 'Hawliau Diwylliannol, Democratiaeth Ddiwylliannol'. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon wedi cefnogi'r bartneriaeth Lleisiau Eraill/Other Voices yn Dingle ac yn Aberteifi, gyda'r Prif Weinidog yn mynychu digwyddiad Aberteifi yn 2022.

Rydym wedi parhau i gefnogi partneriaeth Coláiste Lurgan ac Urdd Gobaith Cymru yn ogystal â lansiad Ewropeaidd yr Urdd yn 2023, sef 'Chwarae yn Gymraeg', yn Gaelscoil Thaobh na Coille yn Nulyn, lle bu'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg yn ymweld â disgyblion a oedd yn cymryd rhan yng ngweithdy'r Urdd. Trefnodd Swyddfa Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd ddigwyddiadau Gaeltacht bob mis rhwng mis Ebrill 2021 a mis Awst 2022, yn ogystal â gweithio ar y cyd â Culture Ireland i gefnogi Gŵyl y Gelli a'r Youth Literature Laureates. Mae Llywodraeth Iwerddon wedi cefnogi dysgu Gwyddeleg ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Caerdydd yn 2020/21 a 2021/22 ac i fyfyrwyr o'r cyrsiau hyn dreulio cyfnod yn astudio yn y Gaeltacht yn Iwerddon.

### 6. Cymunedau, Cymry/Gwyddelod ar Wasgar a Chwaraeon

Mae un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael secondiad i'r Uned Gwyddelod Tramor yn Adran Materion Tramor Iwerddon i ddysgu sut mae Llywodraeth Iwerddon yn ymgysylltu â Gwyddelod sydd ar wasgar. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'n Cynllun Gweithredu Cymry ar Wasgar. Mae Swyddfa Conswl Cyffredinol Iwerddon wedi hyrwyddo Rhaglen Cefnogi Ymfudwyr Llywodraeth Iwerddon sydd wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn Iwerddon a'r Swyddfa Conswl Cyffredinol yng Nghaerdydd wedi cynnal digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi, Dydd San Padrig a Dydd Santes Ffraid bob blwyddyn.

Mae swyddfa Llywodraeth Cymru yn Iwerddon yn parhau i gefnogi gemau rygbi'r Chwe Gwlad i Ddynion a Merched yn Nulyn ac yng Nghaerdydd. Yn ystod Twrnamaint Cwpan y Byd Timau Dynion FIFA 2022, cynhaliodd ein swyddfa yn Iwerddon dderbyniad rhwydweithio ar gyfer gêm Cymru yn erbyn UDA yn ogystal â digwyddiad sgwrsio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a chyn chwaraewyr Cymru.

## Cynlluniau a Sialensiau i'r Dyfodol

### Trosolwg

Mae ein partneriaid yn ystyried Cyd-ddatganiad Iwerddon-Cymru yn gadarnhaol gan ei fod yn rhoi llwyfan iddynt ddatblygu cysylltiadau cryfach a ffurfio cydweithrediadau a phartneriaethau newydd gyda chefnogaeth gan y ddwy lywodraeth.  Mae'r Datganiad yn canolbwyntio ar randdeiliaid i sicrhau bod y cyfleoedd sy'n cwmpasu meysydd cyffredin ar gyfer ymgysylltu gwleidyddol, economaidd a diwylliannol yn

cael eu gwireddu. Mae'r ddwy lywodraeth yn ystyried bod y berthynas rhwng y ddwy wlad y cryfaf y bu ers blynyddoedd lawer.

Mae llawer o'r uchelgeisiau ar gyfer y Datganiad wedi cael sylw ac maent naill ai wedi'u cyflawni neu ar y gweill. Yng nghyfarfodydd diweddar y grŵp llywio, rhoddwyd ystyriaeth i ddiwygio neu ymestyn y nodau presennol er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Wrth i ni gyrraedd hanner ffordd y Datganiad, mae ystyriaeth gynnar yn cael ei rhoi yn awr i ddatganiad diwygiedig neu ddatganiad yn y dyfodol y gall y ddwy lywodraeth gytuno arno ac ymrwymo i'w gyflawni ar ôl 2025.

**Cysylltiadau Addysgol**

Mae cysylltiadau addysgol cryf rhwng sefydliadau yng Nghymru ac Iwerddon drwy gyfnewidiadau uniongyrchol, cysylltiadau hanesyddol a rhaglenni ymchwil byw. Mae pryder, heb benderfyniad cyllido a chwblhau'r ffrwd gyllido Interreg bresennol, y bydd rhai cysylltiadau ar y cyd rhwng Iwerddon a Chymru yn cael eu colli.

Mae datblygiad parhaus Cynghrair yr Academïau Celtaidd a'r ymrwymiad cynyddol gan y Gymdeithas Ddysgedig yn gadarnhaol ac mae ganddo'r potensial i greu a datblygu cysylltiadau newydd a meysydd ymchwil ar y cyd rhwng prifysgolion Cymru ac Iwerddon.

Mae'r rhaglen Taith wedi cael derbyniad da yn Iwerddon ac, er bod y cylch presennol wedi'i ymrwymo, mae rhagor o gyfleoedd i weld mwy o bobl yn cymryd rhan yn Iwerddon ac rydym yn annog rhaglen allgymorth ragweithiol i hyrwyddo Taith ymysg ysgolion yn Iwerddon, sefydliadau trydyddol ac addysg bellach.

**Cyllid**

Mae'r her sylweddol ac allweddol i gyflawni'r Datganiad yn parhau o ran cyllid. Mae prosiectau a rhaglenni cydweithredol cadarn a phendant wedi cael eu cyflawni drwy gyllid Interreg a fydd yn cael ei dynnu'n ôl yn 2023 - yn fwyaf nodedig y rhwydwaith Gwyddor Bywyd Calin a phrosiect Slekie sy'n darparu atebion mapio ar gyfer y sector ynni ar y môr – heb gyllid arall ar waith.

Mae trafodaethau'n parhau rhwng yr adrannau cyllido perthnasol ar ddewisiadau eraill i alluogi cydweithio yn y dyfodol a phrosiectau presennol i barhau i gyflawni, fodd bynnag, byddai maint y cyllid ar raddfa lawer is. Drwy Fframwaith Windsor, sy'n nodi cyd-adolygiadau Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd o Brotocol Gogledd Iwerddon, mae optimistiaeth y gall llwybr posibl ar gyfer cysylltiad y DU â Horizon Ewrop sicrhau mynediad at gyfleoedd cyllido newydd, er na fydd hyn yn cael ei wireddu yn y dyfodol agos.

**Yr Economi**

Mae'r cysylltiadau economaidd rhwng Cymru ac Iwerddon yn dal yn gryf, gyda Buddsoddwyr o Iwerddon yn parhau i ailfuddsoddi mewn gweithrediadau ac allforwyr yng Nghymru a ddaeth i ymweld â'r farchnad yn Iwerddon yn ddiweddar.

Bydd ffocws ar gyfer cysylltiadau economaidd yn y dyfodol o fewn y sector ynni adnewyddadwy a'r cyfleoedd sy'n bodoli ym Môr Iwerddon. Mae cyfleoedd ar gael i ddatblygwyr ynni, y gadwyn gyflenwi adeiladu, datblygu porthladdoedd a gwaith cynnal a chadw parhaus. Mae potensial cryf i Gymru ac Iwerddon elwa ar y cyd o'r cyfleoedd hyn a dylai cyd-ddatganiad yn y dyfodol ganolbwyntio ar y meysydd cyffredin hyn a bu hon yn thema ganolog yn y fforymau gweinidogol.

Mae trafodaethau'n parhau hefyd gyda thimau'r Ffiniau ynghylch y newidiadau sydd ar y gweill, gan gynnwys cyflwyno safleoedd rheoli ffiniau. Mae'n bwysig yn economaidd bod llwybrau masnach rhwng Cymru ac Iwerddon yn aros mor ddi-drafferth ag sy'n bosibl mewn perthynas â newidiadau arfaethedig yn y dyfodol.

**Gwleidyddiaeth**

Un elfen gref o'r Datganiad oedd ymrwymiad arweinwyr ar y ddwy ochr i gwrdd yn flynyddol mewn Fforwm Gweinidogol sy'n cylchdroi rhwng y ddwy wlad. Mae'r Fforymau hyn yn gyfle i nodi'r cynnydd yn erbyn amcanion y Datganiad, dangos ei themâu canolog – gan gynnwys cysylltiadau diwylliannol neu addysgol fel enghreifftiau - a darparu llwyfan i drafod meysydd cydweithio yn y dyfodol. Bydd y Fforwm nesaf yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru ym mis Hydref 2023.

Bydd Gweinidogion ar y naill ochr a'r llall hefyd yn cwrdd yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Fforwm Gweinidogol pwrpasol yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r rhaglen ac mae'n dangos ymrwymiad y ddwy lywodraeth i'r Datganiad. Rhaid i gyfarfodydd o'r fath barhau ac ymddangos mewn unrhyw gytundeb diwygiedig neu gytundeb yn y dyfodol.

**Rhannu Polisïau**

Mae cydweithio, rhannu arferion gorau a dysgu polisi yn themâu ac uchelgeisiau cyffredin yn y Datganiad. Un enghraifft uniongyrchol o hyn yw secondiad un o swyddogion Llywodraeth Cymru i Adran Materion Tramor Llywodraeth Iwerddon. Mae hwn wedi bod yn gyfle i ni ddysgu, deall a phrofi dull Iwerddon o ymgysylltu â Gwyddelod ar wasgar a llywio ein dull ein hunain o weithio gyda'r Cymry sydd ar wasgar. Mae adrannau eraill y llywodraeth hefyd wedi creu cysylltiadau newydd ac wedi rhannu'r arferion gorau a'r datblygiadau polisi cyfredol.
Wrth symud ymlaen, mae mwy o gyfleoedd i gysylltu â swyddogion ar draws meysydd polisi yn cael eu nodi i rannu'r hyn a ddysgwyd.

Mae awydd parhaus i gydweithio rhwng ein dwy lywodraeth yn y dyfodol ac mae Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2020-2025 yn rhoi sylfaen gref i ni fwrw ymlaen â'n perthynas ymhellach.